**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Tachwedd 2018*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 27 Tachwedd 20186 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Yr wythnos yn dechrau 26 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 28 Tachwedd 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 20 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i ddwy gyfres bresennol o Reoliadau Cymru a Lloegr sy'n ymwneud â gofynion iechyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion dyframaethu a chofrestru busnesau dyframaethu. Effaith y Rheoliadau y bwriedir eu gwneud nawr yw dileu pŵer swyddogion yr UE i archwilio adeiladau'r DU a / neu i fynd gydag arolygwyr. Maent hefyd yn disodli cyfeiriadau at glefydau a geir mewn un Gyfarwyddeb UE benodol â rhestr a geir mewn Rheoliad yr UE. Bydd yr olaf yn rhan o gyfraith a ddargedwir yr UE, ac ni fydd y cyntaf.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 16 Tachwedd 2018, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac yn nodi i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu o ran polisi newydd yn y meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol dros geisio cynnig caniatâd o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.